

Erthygl 9 – Y Pwyllgor Safonau

9.1 Y Pwyllgor Safonau

Mae'r Cyngor wedi sefydlu Pwyllgor Safonau gyda'r aelodaeth, trefniadau gwaith a'r cylch gwaith canlynol.

9.2 Cyfansoddiad

(a) Aelodaeth

Mae'r Pwyllgor Safonau yn cynnwys 9 o aelodau, sef:

- i. 5 aelod 'annibynnol' nad ydynt yn aelodau etholedig o'r Cyngor;
- ii. 3 Chynghorydd Sir;
- iii. 1 aelod o Gyngor Cymuned yn yr ardal a elwir yn 'Aelod Cymuned' o'r pwyllgor.

(b) Telerau'r Swydd

- i. Penodir aelodau annibynnol am gyfnod cychwynnol o 4-6 blynedd, ond gellir eu hail-ethol am gyfnod pellach o hyd at 4 blynedd;
- ii. Bydd hyd tymor gwasanaeth aelodau'r Awdurdod Leol sy'n aelodau o'r Pwyllgor Safonau yn parhau tan yr etholiad llywodraeth leol arferol nesaf yn dilyn eu penodiad. Gellir eu hailbenodi am 1 tymor olynol pellach.

(c) Cworwm

Ni fydd gan gyfarfod o'r Pwyllgor Safonau gworwm oni bai fod:

- i. o leiaf dri aelod, gan gynnwys y Cadeirydd, yn bresennol; a bod
- ii. o leiaf hanner yr aelodau sy'n bresennol (gan gynnwys y Cadeirydd) yn aelodau annibynnol.

(d) Pleidleisio

Bydd gan aelodau annibynnol ac aelodau cymuned o'r pwyllgor hawl i bleidleisio mewn cyfarfodydd.

(e) Aelod Cymuned o'r Pwyllgor

Ni fydd aelod cymuned o'r pwyllgor yn cymryd rhan yn nhrefodion y Pwyllgor Safonau pan fo unrhyw mater sy'n ymwneud â'i gyngor cymuned ef/hi yn cael ei ystyried.

(f) Cadeirio'r Pwyllgor

- i. Dim ond aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau a all fod yn Gadeirydd neu'n Is-Gadeirydd;
- ii. Etholir y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd gan aelodau'r Pwyllgor Safonau am gyfnod o 4-6 blynedd. Gellir ailbenodi'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd am un cyfnod pellach o hyn at 4 blynedd.

9.3 Rôl a Swyddogaeth

Mae gan y Pwyllgor Safonau y swyddogaethau canlynol:-

- (a) Hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel gan gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig;
- (b) Cynorthwyo'r cynghorwyr a'r aelodau cyfetholedig i gadw at y Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau;
- (c) Cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu ddiwygio'r Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau;
- (d) Monitro gweithredu'r Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau;
- (e) Cynghori, neu drefnu hyfforddiant i gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig ar faterion sy'n ymwneud â'r Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau;
- (f) Rhoi caniatâd i gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig lle bo ganddynt fuddiant personol, rhagfarnol o dan Gôd Ymddygiad yr Aelodau, yn amodol ar ofynion cyfreithiol;
- (g) Ymdrin ag unrhyw adroddiadau gan Banel Dyfarnu Cymru, tribiwnlys achos neu dribiwnlys achos interim a sefydlwyd gan y Panel Dyfarnu, ac unrhyw adroddiad gan y Swyddog Monitro ar unrhyw fater a gyfeiriwyd at y swyddog hynny gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, neu adroddiad gan y Comisiynydd Lleol yng Nghymru;
- (h) Ymarfer (a) i (g) uchod mewn perthynas â'r cynghorau tref a chymuned sy'n gyfan gwbl neu gan mwyaf yn ei ardal ac aelodau'r cynghorau tref a chymuned hynny;
- (i) Derbyn adroddiadau blynyddol ar y modd y gweithredir trefniadaeth y Cyngor ar wneud cwyn a'r polisi datgan pryder gyda golwg ar ymgorffori cyfeiriadau at y materion hynny yn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor.
- (j) Cyflwyno Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor llawn.
- (k) Monitro bod arweinwyr y grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan adran 52A(1) o Ddeddf Etholiadau Llywodraeth Leol (Cymru) 2021 a chynghori, hyfforddi neu drefnu hyfforddi, arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor ynghylch materion ym ymwneud â'r dyletswyddau hynny (dod i rym ar 5 Mai 2022)